



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Nodyn o'r cyfarfod

Cyfeirnod ffeil	EN020015
Prosiect	Cysylltiad Gogledd Cymru
Statws	Terfynol
Awdur	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Dyddiad	17 Mai 2018
Cyfarfod â	National Grid
Lleoliad	Telegynhadledd
Yn bresennol	Yr Arolygiaeth Gynllunio Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith Hefin Jones – Rheolwr Achos Siân Evans – Swyddog Achos Hannah Pratt - Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir Alison Down - Cynghorydd AEA a Hawliau Tir
Amcanion y cyfarfod	National Grid Ken Guest - Rheolwr DCO Jacqui Fenn - Uwch Swyddog Caniatadau Diweddariad ar y prosiect
Cylchrediad	Pawb a oedd yn bresennol

Cyflwyniad

Cyflwynodd National Grid (yr Ymgeisydd) a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ar fod yn agored a sicrhawyd fod y sawl a oedd yn bresennol yn deall y bydd unrhyw faterion a drafodir a chyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ar ben hynny, eglurwyd na fydd unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r National Grid (neu eraill) ddibynnu arno.

Diweddariad ar y Prosiect

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu cyflwyno ei gais ym mis Medi 2018, yn seiliedig ar y dyddiad y disgwyliar i gais Wylfa Newydd gael ei gyflwyno ar hyn o bryd. Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod yn cwblhau rhai arolygon amgylcheddol ychwanegol oherwydd bod rhywfaint o ddata'n hen bellach ac nid oedd modd cael mynediad i dir yn flaenorol. Esboniodd yr Ymgeisydd efallai na fydd rhai arolygon yn cael eu cwblhau mewn pryd i'w cynnwys yn nogfennau'r cais ac, os felly, ei fod wedi cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y tybiaethau a fyddai'n cael eu gwneud yn y Datganiad Amgylcheddol. Felly, gallai canlyniadau'r arolygon gael eu cyflwyno fel atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol yn ystod y cyfnod Cyn-archwilio.



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd i sicrhau ei fod yn fodlon bod y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Esboniodd hefyd y byddai'r Awdurdod Archwilio'n penderfynu p'un ai derbyn y rhain ai peidio ar ddechrau'r Archwiliad, ac felly gallai'r Ymgeisydd ddymuno eu rhannu â phartion perthnasol o flaen llaw.

Esboniodd yr Ymgeisydd fod rhywfaint o dir ar ôl nad oes ganddo fynediad iddo sy'n ofynnol ar gyfer arolygon madfallod dŵr cribog, a'i fod yn bwriadu gwneud cais am fynediad o dan a172 y Ddeddf Tai a Chynllunio. Esboniodd yr Arolygiaeth fod [cyngor](#) wedi cael ei roi ar y mater hwn.

Holodd yr Arolygiaeth a fyddai'r ddau opsiwn llwybr yn cael eu cynnwys yn y cais o hyd pe byddai'n cael ei gyflwyno ym mis Medi. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddent, oherwydd ni fydd y mater hwn yn cael ei ddatrys cyn cyflwyno'r cais.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau a bod yr Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i ddatganiadau tir cyffredin gael eu dechrau.

Holodd yr Arolygiaeth ynglŷn â'r drydedd bont Menai arfaethedig. Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod yn ystyried ymarferoldeb defnyddio'r bont ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn. Dywedodd yr Ymgeisydd y bydd yn cynnwys gwybodaeth am y mater hwn yn ei asesiad o effeithiau cronol yn y Datganiad Amgylcheddol. Holodd yr Arolygiaeth a oedd yr Ymgeisydd wedi ymgysylltu ag OFGEM ynglŷn â'r cais hwn. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi gwneud hynny, ond nad oedd yn gwybod p'un a fyddai'n cymryd rhan wrth Archwilio'r cais.

Senarios archwilio

Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at [nodyn cyfarfod](#) rhwng yr Arolygiaeth a Chyngor Ynys Môn a oedd yn cyfeirio at 'wahanol senarios archwilio' mewn perthynas ag ymdrin ag archwiliadau Wylfa Newydd a Chysylltiad Gogledd Cymru. Esboniodd yr Arolygiaeth y byddai'r Rheolwyr Achos ar gyfer y ddau brosiect yn gweithio'n agos wrth lunio amserlenni, gan ystyried cyfnodau gwyliau ac ati.

Cyfieithu

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn deall y byddai'r Arolygiaeth yn cyfieithu unrhyw gynrychiolaethau a gyflwynir yn Gymraeg, a gofynnodd a fyddai'r rhain yn cael eu rhannu â phartion eraill. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai unrhyw gyfieithu a wneir gan yr Arolygiaeth ar gyfer yr Awdurdod Archwilio yn unig ac na fyddai'n bosibl rhannu'r rhain â phartion eraill.



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffioedd

Holodd yr Ymgeisydd a oedd unrhyw fwriad i gynyddu'r ffioedd. Dywedodd yr Arolygiaeth fod ffioedd yn cynyddu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, yn unol â chwyddiant.

Caniatâd Adran 150 (a150)

Holodd yr Ymgeisydd a oes angen i'r caniatadau sydd i'w cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu o dan a150 gael eu cwblhau'n derfynol cyn cyflwyno. Dywedodd yr Arolygiaeth y dylai hyn gael ei symud ymlaen cyn belled â phosibl erbyn y dyddiad cyflwyno.